# Adolygiad Cyflym
# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

## Beth yw effeithiolrwydd cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer unigolion y gofynnir iddynt hunanynysu ar ôl cael prawf Covid positif neu gyswllt positif?

## Rhif adroddiad – RR00020 Gorffennaf 2022

| Manylion yr Adolygiad Cyflym |
|---|
| **Adolygiad wedi'i gynnal gan:**<br>Technoleg Iechyd Cymru<br><br>**Tîm Adolygu:**<br>Lauren Elston, Jenni Washington, Elise Hasler, Tom Winfield<br><br>**Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC ar:**<br>27ain Gorffennaf 2022<br><br>**Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:**<br>13eg Mehefin 2022<br><br>**Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC ar:**<br>Awst 2022<br><br>**Tîm WCEC:**<br>▪ Adrian Edwards, Alison Cooper, Ruth Lewis a Jane Greenwell, a gyfrannodd at ddrafftio'r Crynodeb o'r Prif Bwyntiau a'i olygu<br><br>**Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:**<br>RR00020. Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru. Adolygiad cyflym o effeithiolrwydd cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer unigolion y gofynnir iddynt hunanynysu ar ôl cael prawf Covid positif neu gyswllt positif. Awst 2022<br><br>Gellir cyrchu'r adroddiad hwn o lyfrgell WCEC:<br>https://ymchwiliechydagofalcymru.org/llyfrgell-adroddiadau-canolfan-tystiolaeth-cofid-19-cymru<br><br>**Ymwadiad:** Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro. |

# Beth yw effeithiolrwydd cynlluniau cymorth ariannol ar gyfer unigolion y gofynnir iddynt hunanynysu ar ôl cael prawf Covid positif neu gyswllt positif?

## Rhif adroddiad – RR00020 Gorffennaf 2022

## ADRODDIAD LLAWN

| CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU |
|---|
| **Beth ydy Adolygiad Cyflym?**<br>Mae ein hadolygiadau cyflym yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Maent yn cymryd 1-2 fis, gan ddibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/ cwestiwn/ cwestiynau ymchwil, graddau'r sylfaen dystiolaeth a'r math o ddadansoddi sy'n ofynnol i gyfuno'r dystiolaeth.<br><br>**Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?**<br>Llywodraeth Cymru<br>**Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym**<br>Mae profi am COVID-19 wedi'i roi ar waith yn fyd-eang fel offeryn i dorri ar drosglwyddiad trwy ynysu cysylltiadau positif oddi wrth y boblogaeth ehangach. Mae systemau cymorth ariannol wedi'u rhoi ar waith i gynyddu nifer y rheini sy'n cydymffurfio â gofyniad i ynysu, ond mae yna ansicrwydd ynglŷn ag effeithiolrwydd y mesurau hyn.<br><br>**Darganfyddiadau Allweddol**<br>Nodwyd tri adolygiad, yn ogystal â phedair astudiaeth sylfaenol a gyhoeddwyd ar ôl dyddiadau chwilio'r adolygiad. Oherwydd amrywiaeth a phrinder y dystiolaeth a nodwyd, detholwyd yr astudiaethau sylfaenol a gynhwyswyd yn yr adolygiadau (n=5) ac adroddwyd arnynt ochr yn ochr â'r dystiolaeth sylfaenol arall. O ganlyniad i hyn, detholwyd 9 astudiaeth sylfaenol a'u crynhoi yn yr adroddiad hwn.<br>*Graddau'r sylfaen dystiolaeth*<br>▪ Roedd yr astudiaethau sylfaenol yn canolbwyntio'n bennaf ar y pandemig COVID 19 (n=7) gyda dwy astudiaeth wedi'u gosod yng nghyd-destun y pandemig H1N1.<br>▪ Roedd y mathau o astudiaethau'n cynnwys: astudiaethau modelu epidemiolegol (n=2), astudiaeth mdodelu economaidd (n=1), cyhoeddiad wedi'i seilio ar holiadur (n=1), arbrofion dewis arwahanol (DCE) (n=2), astudiaeth arsylwadol ôl-weithredol (n=1), ac arolygon o aelwydydd (y ddau ar gyfer H1N1, n=2).<br>▪ Cwblhawyd yr astudiaethau yn UDA (n=3), Brasil (n=1), Iran (n=1), Awstralia (n=2, astudiaethau H1N1), neu ar draws nifer o wledydd (UDA, Cenia a Mecsico; n=1). Ni nodwyd unrhyw astudiaethau a oedd â'u sail yn y DU.<br>▪ Roedd mwyafrif yr astudiaethau (n=7) yn cynnwys poblogaeth gyffredinol, ond roedd un astudiaeth yn canolbwyntio ar y boblogaeth ddigartref, ac roed un astudiaeth yn cynnwys staff a myfyrwyr yn y brifysgol. |

*Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth*

- Cwblhawyd 7 astudiaeth sylfaenol yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf; cwblhawyd y 2 astudiaeth o'r pandemig H1N1 yn 2011-12.

*Tystiolaeth o effeithiolrwydd*

- Roedd chwe astudiaeth yn dangos bod yna gysylltiad rhwng cymorth ariannol ar gyfer ynysu a niferoedd uwch o bobl yn cydymffurfio â'r gofyniad i hunanynysu.
- Daeth dwy astudiaeth modelu epidemiolegol i'r casgliad bod yna gysylltiad rhwng lefelau uwch o ynysu cymdeithasol a lleihau trosglwyddiad COVID-19.
- Roedd darganfyddiadau DCE yn dangos perthynas bositif rhwng hunanynysu a oedd yn para'n hirach a gofynion ariannol uwch.
- Roedd model economaidd yn dangos bod gan raglenni cymorth botensial i fod yn ymyrraeth gost-effeithiol.
- Roedd astudiaeth arsylwadol ôl-weithredol yn cynnig tystiolaeth a oedd yn cefnogi hyfywedd cyflenwi gwestai ynysu â chymorth meddygol ar gyfer pobl a oedd yn methu ag ynysu gartref.
- Yn ogystal â'r llenyddiaeth COVID-19, daeth dau arolwg o aelwydydd i'r casgliad bod yna gysylltiad rhwng cymorth ariannol yn ogystal â gwell gwybodaeth am gyfyngu cymdeithasol a chydymffurfio â gofyniad i ynysu.

**Goblygiadau i Bolisi**

- Prin yw'r dystiolaeth i awgrymu bod cymorth ariannol ar gyfer ynysu'n gallu cynyddu nifer y rheini sy'n cydymffurfio, lleihau ymgysylltiad cymdeithasol a lleihau lefelau'r haint.
- Nid oes yna ddigon o dystiolaeth i ddarparu sail ar gyfer graddfa ddelfrydol y cymorth ariannol gofynnol.
- Nid oedd yna unrhyw dystiolaeth ynglŷn ag effeithiolrwydd cymorth ariannol ar gyfer poblogaethau dan anfantais y mae gofyn iddynt ynysu nac unrhyw ddealltwriaeth o effaith cymorth ariannol ar gydraddoldeb.

**Cryfder y Dystiolaeth**

Cymharol isel yw'r sicrwydd cyffredinol yn y dystiolaeth. Roedd mwyafrif yr astudiaethau'n dibynnu ar ddata roedd cyfranogwyr wedi'u cyfrannu ynglŷn ag ymddygiad neu'r pethau a oedd yn well ganddynt a, lle roedd data arsylwadol wedi'u defnyddio, roedd yna broblemau ag ansawdd y data a chydsylfaenwyr na sylwyd arnynt.